# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ35081 a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 25 Mehefin 2004

**At Janice Gregory:**

Yn y Cyfarfod Llawn, ddydd Mawrth, 18 Mai 2004, gofynasoch y cwestiwn canlynol i mi, y cytunais i'w drafod gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac ysgrifennu atoch ar y mater:

'A wnewch chi a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i ddwyn pwysau ar yr awdurdodau perthnasol i ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o lwpws?'

Fy ateb oedd:

'Yr wyf yn ddiolchgar i chi am eich cwestiwn, ac yr ydych yn iawn i ddweud nad oes llawer yn wybyddus am y cyflwr hwn. Yr oeddwn wedi clywed am y cyflwr ond, nes i chi ofyn eich cwestiwn, dim ond ychydig yr oeddwn yn ei wybod amdano. Mae'n afiechyd eithriadol o wanychol, ac mae 90 y cant o'r rhai sy'n dioddef ohono yn fenywod. Caiff yr afiechyd ei drin fel arfer mewn clinigau rhewmatoleg, ond, os ceir problemau gyda'i drin yn y clinigau hynny, byddaf yn gwneud ymholiadau, a bydd naill ai myfi neu Jane Hutt yn ysgrifennu atoch.'

Ar ôl trafod y mater gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gallaf gadarnhau y bydd lwpws yn cael ei ystyried o fewn cyd-destun ein bwriad i ddatblygu polisi a chynllun gweithredu ar arthritis ac iechyd a lles cyhyrysgerbydol i Gymru gyfan. Bydd y polisi a'r cynllun gweithredu yn helpu i sicrhau darpariaeth deg o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig o ansawdd uchel i bobl sydd ag arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol, gan gynnwys lwpws, ledled Cymru. Hwn fydd y cyntaf o'i fath yn y DU, os nad yn Ewrop. Bydd y polisi a'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar ofal a chefnogaeth mewn ffordd gyfannol drwy ganolbwyntio ar ddarparu gofal sy'n rhoi'r sylw i'r person, hyrwyddo iechyd ac annibyniaeth a theilwra gwasanaethau o amgylch anghenion pobl.

Mae grwp cynllunio  a gweithredu wedi ei sefydlu er mis Medi 2003 i symud hyn yn ei flaen yng Nghymru. Mae hon yn bartneriaeth amlasiantaeth, amlbroffesiynol rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol, grŵp diwydiant Cymru, ymgynghorwyr blaenllaw ym maes rhewmatoleg ac orthopedeg, therapyddion a chynrychiolwyr gofal iechyd eraill a'r sector gwirfoddol, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Ofal Llid y Cymalau, Arthritis and Musculoskeletal Alliance a defnyddwyr y gwasanaeth.

Mae'r grŵp wedi nodi'r materion allweddol canlynol ar gyfer y polisi a'r cynllun gweithredu, ac mae is-grwpiau wedi eu sefydlu i symud ymlaen â'r materion allweddol hyn:

- atal
- mynediad
- asesu/diagnosis
- rheoli/trin
- gofal annibynnol a chymorth
- cyfathrebu a gwybodaeth

Mae gwaith y grŵp yn mynd rhagddo yn dda a'r bwriad yw cynhyrchu drafft ar gyfer ymgynghori yn yr hydref eleni.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ35104 a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 8 Mehefin 2004**

**At William Graham:**

Yr wyf yn ysgrifennu mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â diffiniad o'r term 'rhydd o GM', a godwyd gennych yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Mai. Fy nealltwriaeth yw nad yw rheoliadau'r UE ar olrhain a labelu organebau sydd wedi eu haddasu'n enynnol (rheoliad 1830/2003) ac ar fwyd a phorthiant GM (rheoliad 1829/2003) yn darparu ar gyfer labelu cynhyrchion fel rhai 'rhydd o GM'. Yn hytrach, mae'r rheoliadau'n sefydlu system lle y mae'n rhaid i gynhyrchion GM sy'n cynnwys neu sy'n deillio o ddeunydd GM fod wedi ei labelu felly yn glir. Mae hyn yn wir, waeth beth fo lefel y presenoldeb GM. Yr unig eithriad i'r oblygiad hwn yw lle y mae'r presenoldeb GM yn llai na 0.9 y cant ac yn ddamweiniol neu'n dechnegol amhosibl ei osgoi. Os felly, mae'r cyfrifoldeb ar y gweithredwr i ddarparu tystiolaeth bod pob cam rhesymol wedi ei gymryd i osgoi llygru â GM. Wrth asesu graddfa'r goblygiad i labeli cynhyrchion fel rhai sy'n cynnwys organebau wedi eu haddasu'n enynnol, mae'n rhaid i'r gweithredwr ystyried nid yn unig a ellir canfod presenoldeb GM yn y cynnyrch, ond hefyd, o ystyried y darpariaethau helaeth ar olrhain, a gafodd unrhyw organebau GM eu defnyddio yn ystod unrhyw gam yn y broses gynhyrchu.

Dylai unrhyw weithredwr sy'n dymuno labelu cynnyrch fel un sy'n 'rhydd o GM' fod yn ofalus iawn i sicrhau bod ei weithrediadau'n gyson â gofynion y rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth ychwanegol at EAQ35728, a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 18 Mehefin 2004**

**At Nick Bourne:**

Yr wyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 24 Mai.

Gryn amser yn ôl, gofynnodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i fi friffio Aelodau ar sefyllfa gyfreithiol cyflogeion a ddiswyddwyd wedi i gwmni fynd yn fethdalwr. Atodir copi o'r briff hwnnw.

Mae fy swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ofalus. Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn marchnata'r safle yn rhagweithiol fel busnes gweithredol ac fel safle sydd yn addas ar gyfer gweithgarwch datblygu diwydiannol amgen.

**Adroddiad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, Mai 2002.**

**Tâl dileu swydd i gyflogeion**

Pan fod swyddi cyflogeion yn cael ei ddileu, maent yn disgwyl i'r cyflogwr dalu unrhyw dâl dileu swydd y gall fod ganddynt hawl iddo. Byddant hefyd yn disgwyl i'w cyflogwr wneud unrhyw daliadau eraill sydd yn ddyledus iddynt, er enghraifft tâl am wyliau cronedig, cyflog oedd yn weddill ac unrhyw dâl yn lle rhybudd. Efallai na fydd gweithiwr cyflogedig yn gallu adennill y symiau os yw'r cyflogwr wedi mynd yn fethdalwr neu os nad yw'n fodlon talu. Yn y fath amgylchiadau, fe all cyflogeion fwrw ati i adennill y 'dyledion' hyn mewn ffyrdd eraill:

**Fel credydwr blaenoriaethol**

Pan nad yw gweithiwr cyflogedig yn gallu adennill taliad o ddyledion penodol y dylai'r cyflogwr fod wedi medru eu talu, cyfrifir y dyledion hyn fel dyledion blaenoriaethol ym methdaliad y cyflogwr. Rhoddir cap o £800 ar faint caiff ei gyfrif yn ddyled blaenoriaethol yn y fath amgylchiadau, felly os oes mwy na £800 yn ddyledus i'r gweithiwr cyflogedig, bydd ef neu hi yn cael ei g/chyfrif fel credydwr cyffredin o ran unrhyw ddyled sy'n weddill.

**Cyfraniadau pensiwn sydd yn weddill**

O dan ran 12 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, mae gan weithiwr cyflogedig sydd yn cael ei ddiswyddo yr hawl fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflenwi cyfraniadau y gweithiwr cyflogedig i gynllun pensiwn galwedigaethol os nad ydynt wedi cael eu talu. Daw'r taliadau hyn o'r gronfa yswiriant gwladol. Yn y fath amgylchiadau, gellir gwneud cais am dalu ôl-ddyledion ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr a chyfraniadau cyflogeion.

**Cais am daliad o'r Gronfa Yswiriant Gwladol**

Mae rhai gwarantau wedi cael eu darparu gan y wladwriaeth er mwyn sicrhau bod tâl dileu swydd yn cael ei dalu i weithiwr cyflogedig sydd wedi cael ei ddiswyddo lle nad yw'r cyflogwr yn medru talu oherwydd methdaliad neu os yw'r cyflogwr yn gwrthod talu. Yn yr amgylchiadau hyn, gall y gweithiwr cyflogedig wneud cais i'r Adran Masnach a Diwydiant i'w dalu o'r 'gronfa yswiriant genedlaethol'.

O dan ran 12 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, gellir defnyddio'r gronfa yswiriant genedlaethol i dalu dyledion penodol i'r gweithiwr cyflogedig, gan warantu felly fod y gweithiwr cyflogedig yn derbyn peth tâl. Gall weithiwr cyflogedig hawlio 'taliad cyflogwr.' Mae hyn yn cynnwys:

- taliad dileu swydd statudol; neu
- daliad sydd yn ddyledus gan y cyflogwr o dan ddatganiad a gymodwyd drwy'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu neu gytundeb cyfaddawdu ffurfiol; neu
- daliad wedi ei gyd-gytuno a gadarnhawyd o dan y darpariaethau contractio allan ar y cyd.

Gall weithiwr cyflogedig hefyd wneud cais am y canlynol o'r gronfa yswiriant cenedlaethol:

- hyd at wyth wythnos o ôl-daliad cyflog. Nid yw'r gweithiwr cyflogedig wedi ei gyfyngu i'r wyth wythnos diweddaraf cyn y methdaliad, ond gall ddewis tâl ar gyfer yr wythnosau nad yw wedi derbyn tâl drostynt sydd fwyaf ffafriol iddo. O ganlyniad,

er enghraifft, os oedd gweithiwr cyflogedig heb gael ei dalu dros 10 wythnos unigol, fe all ddewis wneud cais i adennill tâl am unrhyw wyth wythnos fel y dymunir;

- isafswm cyflog yn ystod y cyfnod o rybudd neu ad-daliad am fethiant i roi rhybudd;
- hyd at chwe wythnos o dâl am wyliau a grynhowyd dros y 12 mis diwethaf;
- dyfarniad sylfaenol ar gyfer diswyddiad annheg ac
- ad-daliad rhesymol o ffioedd.

**Yr amgylchiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud cais**

Gellir ond gwneud cais am 'daliadau cyflogwr' mewn amgylchiadau lle mae'r cyflogwr naill ai'n ddygn yn gwrthod talu neu yn 'fethdalwr'. Yr unig bryd y gellir adennill 'dyledion wedi eu gwarantu' yw pan fo'r cyflogwr yn 'fethdalwr'.

**Amod**

Nid oes hawl i gael tâl dileu swydd ar derfyn cyflogaeth oherwydd ddileu swydd nac unrhyw gais am warant gan yr Adran Masnach a Diwydiant nes bod y gweithiwr cyflogedig wedi cwblhau dwy flynedd o gyflogaeth barhaus.